**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**DYDD GWENER, 6 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Gwener, 6 Hydref 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Cyfreithiwr, Swyddog Trwyddedu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**YR AWDURDOD CYFRIFOL:** Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG:** Ymgeisydd

**1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio’r wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan ei bod yn cael eu hystyried yn wybodaeth wedi’i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

**GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd Aelodau’r Is-bwyllgor a swyddogion y Cyngor a’r Awdurdod Cyfrifol. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai’r cais yn cael ei bennu.

**3. CAIS AM DRWYDDED PERSONOL**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad i ystyried a phenderfynu ar gais am Drwydded Bersonol gan yr Awdurdod.

Eglurodd y Swyddog Trwyddedu bod y datgeliad sylfaenol yr oedd ei angen yn ôl deddfwriaeth yn rhan o’r broses ymgeisio wedi datgelu euogfarn. Gan fod y trosedd yn euogfarn berthnasol dan Ddeddf Trwyddedu 2003, atgyfeiriwyd y cais at Heddlu Gogledd Cymru i'w ystyried. Gwrthwynebodd Heddlu Gogledd Cymru’r cais gan y gallai fod yn groes i Amcanion Trwyddedu Trosedd ac Anrhefn Deddf Trwyddedu 2003. Datgelodd Heddlu Gogledd Cymru hefyd bod yr ymgeisydd wedi’i chael yn euog o drosedd yn 2008. Gofynnwyd i’r Is-bwyllgor bennu a oedd yr ymgeisydd yn berson addas i ddal Trwydded Bersonol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r ymgeisydd pam nad oedd wedi datgelu'r trosedd blaenorol ar ei chais gan ei gwahodd i egluro ei heuogfarn flaenorol. Eglurodd yr ymgeisydd ei bod wedi deall bod ei heuogfarn a ddigwyddodd yn 2008 wedi'i 'threulio' ac felly nad oedd angen ei datgan. Eglurodd Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru, mewn perthynas â throseddau traffig ffordd, y gallai gwybodaeth gael ei datgelu hyd at 11 mlynedd ar ôl yr euogfarn.

Mewn ymateb i gais y Cadeirydd, rhoddodd yr ymgeisydd wybodaeth gefndir ac amlinellodd yr amgylchiadau personol yng nghyd-destun y troseddau a gyflawnwyd. Dywedodd ei bod yn llwyr edifarhau ei hymddygiad yn y gorffennol a dywedodd bod y digwyddiadau a oedd wedi arwain at ei dau drosedd yn unigryw ac yn groes i'w chymeriad. Pwysleisiodd ei bod wedi datblygu'n berson cyfrifol, gonest a gweithgar oherwydd ei phrofiadau ac roedd yn ystyried ei bod yn unigolyn cymwys ac addas yn enwedig i ddal Trwydded Bersonol pe bai ei chais yn llwyddiannus.

Atebodd yr ymgeisydd gwestiynau a godwyd gan yr Is-bwyllgor ynglŷn â'i hamgylchiadau personol a theuluol a'i hanes cyflogaeth. Amlinellodd hefyd ei rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol, ei huchelgeisiau am yrfa'n rheoli tafarn yn ogystal â'i phrofiad o oruchwylio wrth weithio mewn safle trwyddedig. Dywedodd yr ymgeisydd ei bod yn ddibynnol ar gael trwydded bersonol i wella ei dewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ei hannibyniaeth ariannol a'i sefyllfa deuluol.

Ceisiodd y Cyfreithiwr eglurhad pellach gan yr ymgeisydd yng nghyd-destun peidio â thanseilio Amcanion Deddf Trwyddedu 2003, yn enwedig Atal Trosedd ac Anhrefn. Ceisiodd y Cyfreithiwr eglurder ynglŷn ag amgylchiadau ei heuogfarnau a'r dedfrydau a gafwyd amdanynt a holodd yr ymgeisydd yn fanwl ynglŷn â'i dealltwriaeth o ddifrifoldeb a goblygiadau materion sy'n ymwneud ag yfed a gyrru. Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r ymgeisydd hefyd sut y byddai'n mynd i'r afael â materion yfed a gyrru, tybiaeth o yfed a gyrru ac yfed dan oed gyda chwsmeriaid yn ystod ei chyflogaeth mewn tafarn.

Holodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd ynghylch ei hamgylchiadau personol a theuluol a gofynnodd a oedd ganddi strategaethau a allai ei helpu yn ystod cyfnodau "anodd". Soniodd yr ymgeisydd am y gefnogaeth a ddarparwyd gan aelodau ei theulu a'r cymeriad cryf roedd wedi'i ddatblygu o ganlyniad i'w phrofiadau.

Darparodd aelod o deulu'r ymgeisydd ddatganiad ategol i ategu bod yr ymgeisydd yn berson cyfrifol, gonest a gweithgar ac yn unigolyn cymwys ac addas i ddal Trwydded Bersonol. Pwysleisiodd bod methiant yr ymgeisydd i ddatgelu ei heuogfarn yn 2008 yn gamddealltwriaeth wirioneddol ac nad oedd wedi bwriadu camarwain neb.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd, Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddog Trwyddedu adael y cyfarfod tra oedd y panel yn penderfynu ar y cais.

**4.1 Penderfyniad ar y Cais**

Wrth benderfynu ar y cais, ystyriodd yr Is-bwyllgor Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys yr Amcanion Trwyddedu perthnasol fel Atal Trosedd ac Anhrefn, Canllawiau Adran 182 ar gyfer Awdurdodau Lleol, a datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Ystyriwyd gonestrwydd yr ymgeisydd gan ei bod wedi methu â datgelu ei holl euogfarnau. Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr amgylchiadau a oedd ynghlwm â phob achos, a'r eglurhad a roddwyd ar lafar, a theimlai'r aelodau bod yr ymgeisydd wedi adrodd hanes ei gweithredoedd yn llawn ac yn gredadwy. Roedd y Pwyllgor Trwyddedu o'r farn na fyddai'r Amcanion Trwyddedu'n cael eu tanseilio pe bai gan yr ymgeisydd Drwydded Bersonol ac felly roeddent yn ystyried y gallai'r ymgeisydd gael Trwydded Bersonol yn yr amgylchiadau hyn.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd, Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddog Trwyddedu yn ôl a chafodd y cyfarfod ei ailymgynnull.

**4.2 Penderfyniad**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd, ar ôl gwrando ar yr holl sylwadau a wnaed gan bawb, bod yr Is-bwyllgor wedi penderfynu bod sylwadau'r ymgeisydd, gan gynnwys ei hatebion i gwestiynau, wedi bod yn onest, gan gynnwys sylwadau a oedd yn ymwneud ag Amcan Trwyddedu Atal Trosedd ac Anhrefn yn Neddf Trwyddedu 2003. Roedd yr Is-bwyllgor yn credu, o dan yr amgylchiadau, na fyddai'r Amcanion Trwyddedu'n cael eu tanseilio pe bai trwydded yn cael ei rhoi a chytunodd i ganiatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD:**

Na fyddai'r Amcanion Trwyddedu wedi'u tanseilio pe bai gan yr ymgeisydd Drwydded Bersonol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly y dylid caniatáu'r Drwydded Bersonol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 12.23 pm)

..................................................

**Cadeirydd**